# PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod o Bell a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, S.J. Haines, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, S. Lloyd-Selby a H.M. Payne.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro) a G. Doyle a V. John (Gweithgor Tenantiaid/Cynrychiolwyr Panel) a'r Cynghorwyr G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid).

313 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

314 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr G. Ball a M.J.G. Morgan a D. Dutch (Gweithgor Tenantiaid/Cynrychiolwyr Panel).

315 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf, 2024 fel cofnod cywir.

316 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd J. Aviet fuddiant personol ond nid oedd yn rhagfarnu yn Eitem 6 ar yr Agenda - Cau Cyfrifon 2023/24, Eitem 7 ar yr Agenda - Cau Cyfrifon Cyfalaf 2023/24 ac Eitem Agenda 8 - Chwarter 1 Monitro Refeniw 2024/25 yn yr ystyr ei bod Tenant Cyngor.

Datganodd y Cynghorydd WA Hennessy fuddiant personol ond nid oedd yn rhagfarnu yn Eitem 6 ar yr Agenda - Cau Cyfrifon 2023/24, Eitem 7 ar y Rhaglen -

Cau Cyfrifon Cyfalaf 2023/24 ac Eitem Agenda 8 - Monitro Refeniw Chwarter 1 2024/25 yn yr ystyr ei fod yn Tenant Cyngor.

317 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL: 2023/2024 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024 gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau.

Roedd y Cabinet wedi cael diweddariad ar y gwaith a wnaed mewn perthynas â threfniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ar draws y Cyngor.

Roedd cyfrifoldeb corfforaethol i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion yr oedd angen gwasanaethau penodol y Cyngor arnynt. Rhoddodd Adroddiad Blynyddol 2023/24 drosolwg o’r gweithgareddau Diogelu Corfforaethol a oedd yn digwydd ar draws yr Awdurdod Lleol.

Yn dilyn cyflwyniad y swyddog, rhoddodd y swyddog wybod am y canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau’r Pwyllgor:

- Er nad oedd goblygiadau uniongyrchol o ran adnoddau ar lefel gorfforaethol a nodwyd gan yr adroddiad, roedd ymwybyddiaeth gynyddol o gyfrifoldeb cyfreithiol pobl i adrodd am bryderon diogelu wedi cael effaith o ran cynyddu'r galw ar wasanaethau. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, er bod nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer oedolion yn benodol wedi cyrraedd gwastadedd.
- Roedd atgyfeiriadau amlasiantaethol a wnaed gan y Tîm Datrysiadau Tai ar gyfer pob plentyn wedi'i leoli mewn llety dros dro wedi cael eu gweithredu yn dilyn digwyddiad mewn hostel y Cyngor ac mewn ymateb i'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â rhai o ddefnyddwyr y gwasanaeth. Rhoddwyd gwybod i deuluoedd fel rhan o'r broses ymgeisio y byddai atgyfeiriad o'r fath yn cael ei wneud ac roedd angen cymorth sylweddol ar lawer o'r teuluoedd cysylltiedig ac roeddent yn ystyried yr atgyfeiriad yn fecanwaith cymorth. Er bod yr atgyfeiriadau yn galluogi'r Cyngor i dargedu adnoddau'n briodol, nid oedd mwyafrif yr atgyfeiriadau yn arwain at gamau gweithredu a fyddai'n ychwanegu anhawster ychwanegol i'r teuluoedd dan sylw. Gellid rhoi mwy o wybodaeth am hyn i'r Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod.
- Er nad oedd llety hostel a llety a rennir yn lleoliadau delfrydol i blant, y gwir amdani oedd nad oedd dewis arall ar gael mewn rhai achosion.
- Roedd llais y plentyn o bwys mawr i'r Cyngor ac roedd yn rhan annatod o'i waith strategaeth gorfforaethol mewn perthynas â Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.
- Roedd llawer iawn o waith wedi digwydd mewn ysgolion, yn enwedig dros y misoedd diwethaf, ynghylch cydlyniant cymunedol a throseddau casineb a byddai gwaith pellach yn cael ei wneud i gefnogi ysgolion i barhau i helpu cymunedau gyda’r materion hyn.
- Er bod swm yr achosion o gamfanteisio ar blant a chasineb hiliol wedi'u hadrodd yn gyfyngedig ym Mro Morgannwg heb unrhyw adroddiadau yn cael eu gwneud y llynedd, gallai hyn adlewyrchu diffyg ymwybyddiaeth ynghylch sut i adrodd am faterion o'r fath, ac felly gellid cyflwyno adroddiad ar wahân ar

waith y Rhaglen Prevent i'r Pwyllgor i hyrwyddo ymwybyddiaeth o atal a mynd i'r afael â radicaleiddio.

Heb unrhyw gwestiynau na sylwadau pellach, y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi cynnwys y cyfeiriad gan y Cabinet dyddiedig 18fed Gorffennaf, 2024 a'r Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol: 2023/24.

(2) Bod adroddiad ar waith y Panel Sianel a rhaglen Prevent ym Mro Morgannwg yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad, ac i drafodaethau yn y cyfarfod

(2) Cynghori'r Pwyllgor ymhellach ar yr agweddau hyn ar ddiogelu trigolion Bro Morgannwg.

318 HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2023/24 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Medi 2024 gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai.

Roedd yr adroddiad wedi ceisio cymeradwyaeth y Cabinet o Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Drafft Bro Morgannwg ar gyfer 2023/24 fel y sail ar gyfer ymgynghoriad.

Defnyddiodd adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Drafft Bro Morgannwg (Atodiad A) ystod eang o ffynonellau gwybodaeth er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth gyflawni ei ymrwymiadau o fewn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2023/24, fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Byddai'r canfyddiadau'n galluogi'r Cyngor i nodi sut y gallai wella ei brosesau mewnol ymhellach a defnyddio adnoddau i wella a chefnogi’r gwaith o gyflawni ei ymrwymiadau o fewn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ac Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol 2020-25.

Roedd yr Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol yn ofyniad i Awdurdodau Lleol Cymru dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor adolygu ei berfformiad yn gyson, ymgynghori arno ac yna cyhoeddi adroddiad yn nodi casgliadau ei hunanasesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol.

Roedd y Cyngor wedi gwerthuso ystod eang o berfformiad, ymgysylltu a mewnwelediad data arall o'i Galendr Perfformiad Blynyddol o weithgareddau gan gynnwys y broses Her Cyfoed a Hunanasesid Cyfarwyddiaeth flynyddol, y Datganiad

Llywodraethu Blynyddol a'r cynnydd o ran cyflawni ymrwymiadau’r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2023/24, a oedd wedi galluogi casgliadau i gael eu tynnu ar ba mor dda yr oedd adnoddau'n cael eu defnyddio i gefnogi’r gwaith o gyflawni Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.   Roedd hyn wedi llywio prif ddyfarniadau Hunanasesiad Blynyddol y Cyngor isod.

Ar gyfer y cyfnod 2023/24, dyfarniad y Cyngor oedd ei fod wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei ymrwymiadau o fewn y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn unol â Chynllun Corfforaethol 2020-25.  Roedd y Cyngor wedi cyflawni 85% o 591 o weithgareddau wedi'u cynllunio a thargedau cysylltiedig a osodwyd yn yr hyn a oedd yn Gynllun Cyflawni Blynyddol uchelgeisiol o ystyried cyd-destun pwysau galw sylweddol parhaus ar wasanaethau a hinsawdd ariannol ac economaidd anodd.  Roedd y meysydd tanberfformio a nodwyd o fonitro perfformiad yn parhau’n feysydd ffocws yn 2024/25 ac fe'u hadlewyrchwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor a chynlluniau cyflawni lefel gwasanaeth ar gyfer y cyfnod.

Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2023/24 yn rhoi dyfarniad 'Sicrwydd Rhesymol' gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor, a oedd yn nodi bod prosesau a systemau o ran llywodraethu’n gadarn ar y cyfan.  Roedd Barn Archwilio Fewnol o naill ai 'sicrwydd sylweddol neu resymol' hefyd wedi’i rhoi i 82% o’r adolygiadau ar sail risg a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn gan brofi effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol gyda 92% o'r holl argymhellion a gyhoeddwyd yn y categorïau blaenoriaeth isel i ganolig.  Yn ogystal, roedd adborth gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor a'r holl Bwyllgorau Craffu ar adroddiad Hunanasesiad Blynyddol y llynedd wedi'i ystyried i wella sut y cafodd cynnydd ei fonitro a'i adrodd yn erbyn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ac Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol ar draws y Cyngor ac yn gyhoeddus.

Priodolwyd dyfarniad cyffredinol o dda i ddefnydd y Cyngor o adnoddau.  Fodd bynnag, roedd y dyfarniad hwn yn adlewyrchu agregiad o ddyfarniadau lefel Cyfarwyddiaeth unigol a roddwyd i ba mor dda yr oedd gwasanaethau wedi defnyddio eu pobl, eu hasedau, eu cyllid, eu gwaith rheoli perfformiad a risg a’u mewnwelediadau ymgysylltu i gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol.  Priodolwyd dyfarniad o 'Deg' i gyllid, comisiynu a chaffael y Cyngor i adlewyrchu'r pwysau galw parhaus mewn gwasanaethau a'r effaith ddilynol ar y gyllideb yn ogystal â'r pwysau sylweddol ar adrannau i gyflawni arbedion ariannol.  Roedd hyn yn cael ei ystyried yn briodol wrth ddychwelyd sefyllfa adennill costau ar gyllideb 2023/24, cyflawnwyd hyn ar ôl tynnu i lawr o gronfeydd wrth gefn i ateb pwysau galw sylweddol mewn nifer o wasanaethau nad oedd yn opsiwn cynaliadwy ar gyfer yr hirdymor.  Yn yr un modd, priodolwyd dyfarniad o 'Deg' i fewnwelediadau ymgysylltu gan adlewyrchu'r angen i ymwreiddio pocedi cyfredol o arfer da ar draws holl wasanaethau'r Cyngor ac i gydnabod ymrwymiadau a wnaed i fwrw ymlaen â'r hyn a ddysgwyd o ganfyddiadau Arolwg Bywyd yn y Fro 2023.

Rhan allweddol o'r Hunanasesiad Blynyddol oedd gwirio dyfarniadau perfformiad y Cyngor a'r canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg o ran meysydd ar gyfer ffocws yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau â ffocws allanol fel sefydliad, gan ymateb i'r pethau a oedd bwysicaf i ddinasyddion a phartneriaid Bro Morgannwg.  Dechreuodd rhaglen o weithgareddau ymgysylltu ym mis Gorffennaf a daeth i ben

ym mis Medi 2024, gan dargedu'r cyhoedd, staff y Cyngor a rhanddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys digwyddiad galw heibio i bartneriaid, digwyddiad staff ar-lein, presenoldeb mewn cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus cymunedol a chyfathrebiadau cyfryngau cymdeithasol amrywiol.  Byddai'r adroddiad Hunanasesiad Drafft gan gynnwys crynodeb cyhoeddus hefyd yn cael ei ddosbarthu'n eang gyda chais am adborth.

Fel rhan o'r gwaith ymgysylltu, byddai Aelodau Etholedig, drwy'r Pwyllgorau Craffu, yn cael eu hymgynghori ar yr adroddiad drafft gyda’u safbwyntiau’n llywio adroddiad Hunanasesiad Blynyddol Terfynol Bro Morgannwg.  Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl benodol a nodwyd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth gyfrannu at yr adroddiad Hunanasesiad Blynyddol a rhaid cyflwyno adroddiad drafft i'r Pwyllgor iddo ei adolygu gyda'r Cyngor yn ymateb i unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau gweithredu yr oedd yn bwriadu eu cymryd.

Byddai canfyddiadau'r gwaith ymgynghori yn cael eu hadlewyrchu yn adroddiad Hunanasesiad Blynyddol terfynol Bro Morgannwg a fyddai'n destun ystyriaeth bellach gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet cyn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2024.

Byddai canfyddiadau Hunanasesiad eleni (2023/24) hefyd yn llywio Asesiad Perfformiad Panel cyntaf y Cyngor, asesiad annibynnol o daith wella'r Cyngor sy'n ofynnol dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau, i'w gynnal unwaith yn ystod cylch etholiadol.  Roedd hyn i fod i ddigwydd ddiwedd hydref 2024 (mae cofnodion y Cabinet yn cyfeirio at hyn: C26, atodwyd Calendr Perfformiad Blynyddol 2024/25 fel papurau cefndir i'r adroddiad) gan alluogi'r Cyngor i adeiladu ar ei hunanasesiad ei hun gyda'r ddau ganfyddiad yn llywio datblygiad Cynllun Corfforaethol 2025-30.

Cafodd canfyddiadau’r hunanasesiad eu llywio gan fewnwelediadau data, perfformiad ac ymgysylltu a oedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Awst 2024, gan alluogi'r Cyngor i fyfyrio ar y sefyllfa fwyaf diweddar gan gynnwys unrhyw heriau, risgiau a meysydd gwella a oedd yn dod i'r amlwg, a fyddai'n llywio datblygiad Cynllun Corfforaethol 2025-30 newydd a Chynlluniau cysylltiedig ar gyfer 2025/26.

Yn dilyn y cyflwyniad, dywedodd y Cyfarwyddwr a'r Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladau y canlynol mewn ymateb i gwestiynau Aelodau'r Pwyllgor:

- Roedd y camau canlynol yn cael eu cymryd gan y Cyngor i gynorthwyo landlordiaid a thenantiaid i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol -
    - Cyfeiriodd ymgynghorwyr y Cyngor denantiaid at gyngor cyfreithiol ynghylch materion yn ymwneud â throi allan, gan fod y Cyngor am gadw trigolion yn eu cartrefi presennol;
    - Roedd gan y Cyngor weithiwr llety Shelter Cymru, wedi'i leoli yn yr adran i gynorthwyo trigolion gyda’r math hwn o ymholiad;
    - Roedd gan y Cyngor berthynas waith dda gyda Shelter, Cyngor ar Bopeth a Rhentu Doeth Cymru y gallai gyfeirio trigolion atynt;
    - Pe na bai landlordiaid yn cydymffurfio â'r rheoliadau, gellid eu cyfeirio at gydweithwyr yn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a allai gymryd

camau gorfodi, neu at Rhentu Doeth Cymru a allai dynnu statws landlord yn ôl pe bai'n briodol.
- Cynhaliwyd ymgyrchoedd cyfathrebu i hyrwyddo hawliau tenantiaid, a gellid gwneud mwy o waith gyda'r Tîm Cyfathrebu i atgyfnerthu deddfwriaeth a chodi ymwybyddiaeth ynghylch Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 trwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Roedd y cwynion a dderbyniwyd am y Gyfarwyddiaeth wedi dyblu, yn rhannol oherwydd arbedion ariannol ac adnoddau a oedd yn gwneud gwasanaethau yn arafach. Yn ogystal, roedd y system casglu gwastraff newydd yn fwy cymhleth ac yn cynnwys mwy o bwyntiau methiant system posibl fel casglu amrywiaeth fwy o fathau o wastraff. Roedd casgliadau gwastraff gardd wedi cynhyrchu nifer fwy o gwynion ers dod yn wasanaeth y codir tâl amdano.
- Gallai'r rhesymau dros wasanaethau arafach gael eu hesbonio ymhellach i drigolion er mwyn rheoli eu disgwyliadau a helpu i'w halinio'n agosach â'r gwasanaethau yr oedd y Cyngor yn gallu eu darparu.
- Methwyd ffigwr isel iawn o lai nag 1% o gasgliadau dyddiol bob dydd er bod swyddogion yn anelu at wella'r ffigwr hwn.
- Roedd y Cynllun Corfforaethol newydd yn rhoi pwyslais ar weithio gyda thrigolion i wella safonau a chyd-gynhyrchu gwasanaethau. Yn allweddol i hyn roedd ymgysylltu cynnar a chyfathrebu effeithiol â thrigolion.
- Byddai arloesi mewn perthynas â gwasanaethau rheng flaen yn hanfodol wrth i gostau darparu gofal cymdeithasol, er enghraifft, gynyddu.

Heb unrhyw gwestiynau na sylwadau pellach, y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cynnwys y cyfeiriad gan y Cabinet ar 5 Medi, 2024 ac adroddiad Drafft Hunanasesiad Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2023/24.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad, a thrafodaethau yn y cyfarfod.

319 CAU CYFRIFON 2023/24 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gweithredol dros Gyfrifeg. Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor fod y cyfrifon wedi'u cwblhau ac am sefyllfa refeniw ariannol dros dro'r Pwyllgor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Dywedodd y swyddog y bydd y Datganiad Cyfrifon yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Tachwedd, yn dilyn archwiliad allanol gan Archwilio Cymru.

Wynebodd y Cyngor bwysau refeniw sylweddol yn ystod 2023/24. Roedd pwysau penodol ynglŷn â phwysau chwyddiant, yn enwedig o ran contractau a phwysau cyflog (a oedd yn adlewyrchu costau byw, pwysau'r farchnad ac ymrwymiad y Cyngor i dalu'r cyflog byw gwirioneddol).

Parhaodd y Cyngor i brofi pwysau galw sylweddol i gefnogi'r Gwasanaethau Plant, Digartrefedd a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystod 2023-24.

Roedd sefyllfa refeniw diwedd y flwyddyn yn un adennill costau ar ôl trosglwyddiadau net o £34.235m, gan gynnwys £417k a drosglwyddwyd o Gronfa’r Cyngor, £12.961m o'r Cyfrif Refeniw Tai, £11.785m a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn penodol o refeniw a £12.078m a drosglwyddwyd o gronfeydd wrth gefn penodol i ddarparu cyllid untro ar gyfer prosiectau a gorwariant, a £8.779m a dynnwyd i lawr o gronfeydd wrth gefn i gyllido'r rhaglen gyfalaf ac ar gyfer dadleoli a oedd yn ofynnol gan grantiau cyfalaf.  £11.106 oedd gan Gronfa’r Cyngor ar 31 Mawrth 2024.

Roedd targedau arbedion ac effeithlonrwydd heriol wedi'u pennu ar gyfer 2023/24 ac roedd hyn yn cynnwys targed o £2.75m ar gyfer ysgolion a £4.628m o arbedion corfforaethol.    Adlewyrchwyd y cynnydd yn erbyn y targedau arbedion hyn yn Atodiad yr adroddiad, ac, er bod gwasanaethau wedi lliniaru rhywfaint o arbedion yn ystod y flwyddyn yn 2023/24, byddai'r arbedion hyn yn cael eu hadolygu yn 2024/25 wrth i wasanaethau symud i nodi’r rheiny a oedd ar sail fwy cynaliadwy dros y tymor canolig.

Ar ôl ystyried symudiadau Cyfarwyddiaeth i ac o gronfeydd wrth gefn, dangosodd yr alldro refeniw warged o £2.080m y cynigiwyd ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn i'w ddefnyddio fel a ganlyn:

- £2m - Sefydlu cronfa wrth gefn newydd i wrthbwyso diffygion addysg yn 2024/25 dros dro tra bod y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion ar sefydlu dull cydlynol o fynd i'r afael â diffygion mewn ysgolion;
- Roedd y balans o £80k wedi’i drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Rhagwelwyd y byddai’r Cyfrif Refeniw Tai yn tynnu ychydig llai i lawr o’r gronfa wrth gefn wedi’i chlustnodi sef £12.961m, gan leihau lefel ei gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i £3.525m, y credwyd ei bod yn rhesymol yng nghyd-destun y pwysau yn y gwasanaeth yn 2024/25.

Gostyngodd lefel y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy yn ystod y flwyddyn, er yn llai na'r hyn a ragwelwyd, ond roedd rhai o'r ymrwymiadau hynny wedi llithro i 2024/25 yn unol â llithriad Gwariant Cyfalaf.  Cynhaliodd y Cyngor ymarfer ailddyrannu cronfeydd wrth gefn arall yn ystod y flwyddyn, fel yr amlinellwyd yng nghynigion cyllideb 2024/25, ac adlewyrchwyd hyn yn y sefyllfa alldro.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

(2) Nodi dyraniad gwarged cyffredinol y Cyngor fel y nodir isod:

- Trosglwyddiad o £2m i gronfa wrth gefn newydd i wrthbwyso diffygion ysgolion ar sail dros dro yn 2024/25.
- £80k i Gronfa'r Cyngor i wrthbwyso pwysau cyffredinol.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod

320 CAU CYFRIFON CYFALAF 2023/24 (CAT) –

Cyflwynodd y Rheolwr Cymorth Cyllid yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor fod y cyfrifon wedi’u cwblhau, ac am sefyllfa ariannol dros dro Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Dywedodd y swyddog y bydd y Datganiad Cyfrifon yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Tachwedd, yn dilyn archwiliad allanol gan Archwilio Cymru.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion ar gau’r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Dangoswyd manylion fesul cynllun, a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor Craffu hwn, yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Rhoddodd Atodiad 2 yr adroddiad grynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth 2023 i 31 Mawrth 2024, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad hwn.

Roedd angen ychwanegu nifer o gynlluniau gwerth cyfanswm £5.395m yn hwyr yn y rhaglen a nododd yr adroddiad y Rhaglen wedi'i haddasu gyfredol o £103.829m a gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn o £88.620m.

Er gwaethaf y ffaith bod cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau parhaus oherwydd nifer o faterion, gan gynnwys cynnydd sylweddol mewn costau a phrinder adnoddau, braf oedd nodi bod Rhaglen Gyfalaf 2023/24 ag alldro o £88.620m a bod 85.35% o'r rhaglen wedi'i wario cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Oherwydd yr ymroddiad, yr ymrwymiad a'r gwaith caled ar draws yr holl Gyfarwyddiaethau, nododd yr adroddiad y Rhaglen wedi’i haddasu gyfredol o £103.829m a llithriad net o £15.013m a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth gan Bwerau Brys i Raglen Gyfalaf 2024/25.

I’r Pwyllgor hwn, roedd y sefyllfa ynghylch y gyllideb yn amrywiad o £6.523m yn erbyn rhaglen wedi'i haddasu o £48.398m. Cofnodwyd mai £41.875m oedd yr alldro ar gyfer y Pwyllgor Craffu hwn a gofynnwyd am lithriad o £6.521m.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

(2) Nodi'r cyllidebau cynllun ychwanegol a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(3) Nodi'r sefyllfa gryno o'r newidiadau yn y Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o'u cymeradwyo yn y Cyngor ar 6 Mawrth, 2023 i 31 Mawrth, 2024, fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

(4) Nodi'r Pŵer Argyfwng a gymeradwywyd mewn perthynas â'r llithriad a nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

321 MONITRO REFENIW CHWARTER 1 2024/25 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cymorth Cyllid, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am sefyllfa Monitro Refeniw Chwarter 1 ar gyfer 2024/25.

Parhaodd y sefyllfa refeniw ar gyfer 2024/25 i adlewyrchu galw heriol a phwysau chwyddiant gan barhau â'r pwysau gwasanaeth allweddol a welwyd yn sefyllfa alldro 2023/24 yn 2024/25. Cafodd y pwysau cost a ddyrannwyd fel rhan o gyllideb 2024/25 eu haddasu i adlewyrchu'r cyllid a oedd ar gael, ac felly nid oeddent yn darparu cyllid llawn ar gyfer pwysau, ac roedd y pwysau hynny wedi parhau i gynyddu yn chwarter cyntaf 2024/25. Ar draws y gwasanaethau, roedd pwysau chwyddiant hefyd yn cael eu profi mewn perthynas â chyflogau, yn fwyaf nodedig lle'r oedd grymoedd y farchnad yn cael eu defnyddio ac ar gyfer y bwlch cyllido rhwng darpariaeth ar gyfer dyfarniad cyflog 2024/25 a'r dyfarniad cyflog tebygol ar gyfer 2024/25. Dim ond chwyddiant cytundebol cyfyngedig iawn a ddyrannodd y Cyngor fel rhan o gyllideb 2024/25 ac nid yw wedi caniatáu chwyddiant cyffredinol ers rhai blynyddoedd a byddai hyn yn cael effaith gyffredinol ar wydnwch y gyllideb refeniw. Byddai'r oedi ar weithredu arbedion hefyd yn effeithio ar alldro 2024/25 ar draws gwasanaethau.

Rhagwelwyd defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn o oddeutu £13.629m ar gyfer 2024/25. Mae gan y Cyngor ffrydiau gwaith amrywiol sy'n symud ymlaen i liniaru'r defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn a lleihau gorwariant yn ystod y flwyddyn.

Roedd targedau arbedion ac effeithlonrwydd heriol wedi'u gosod ar gyfer 2024/25. Adlewyrchwyd y cynnydd yn erbyn y targedau arbedion hynny yn Atodiad yr adroddiad. Parhaodd y Cyngor hefyd i fonitro’r gwaith o gyflawni arbedion 2023/24 heb eu cyflawni yn ystod y flwyddyn.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2024/25 yr Awdurdod.

(2) Nodi'r trosglwyddiadau y gofynnwyd amdanynt fel rhan o'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

322 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEHEFIN 2024 (CAT) –

Gwnaeth yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Cymorth Cyllid, roi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd ar Raglen Gyfalaf 2024/25 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Mehefin 2024. Dangoswyd y manylion fesul cynllun yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Rhoddodd Atodiad 2 yr adroddiad grynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth 2024 i 30 Mehefin 2024, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad hwn. Nododd yr adroddiad unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2024/25 a rhai'r blynyddoedd i ddod.

Nododd yr adroddiad y Rhaglen gymeradwy gyfredol o £139.927m.

Roedd yn bwysig nodi bod llawer o feysydd yn parhau i brofi costau cynyddol ynglŷn â gweithredu cynlluniau. Roedd tendrau'n cael eu derbyn dros y cyllidebau cyfredol a ddyrannwyd ac roedd swyddogion yn adrodd am y gofyniad i aildrafod tendrau a gyflwynwyd.

Byddai cynlluniau'n cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf a rhagwelwyd y byddai gofyn am geisiadau llithriad mewn adroddiadau yn y dyfodol. Byddai swyddogion yn parhau i weithio gyda rheolwyr a noddwyr prosiectau i sicrhau gwerth am arian a bod yr holl gyfleoedd cyllido posibl yn cael eu nodi a'u harchwilio'n llawn.

Tynnodd y swyddog sylw hefyd at gamgymeriad yn niben yr adroddiad ar dudalen 1. Ni ofynnir i'r Pwyllgor hwn am newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf, gan mai cylch gwaith y Cabinet oedd hyn.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2024/25 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, y manylir arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(2) Nodi'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, a grynhoir ym mharagraff 2.5 ac y manylir arno yn yr adroddiad ym mharagraff 2.27.

(3) Nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, y manylwyd arnynt yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(4) Y dylid nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2024/25 a Rhaglen Gyfalaf y dyfodol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, a grynhoir ym mharagraff 2.4 ac y manylwyd arnynt yng nghorff yr adroddiad o baragraff 2.12.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

323 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2024/25 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai. Diben yr adroddiad oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad chwarter 1 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Mehefin 2024 wrth gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

Oherwydd yr heriau capasiti cyfredol o fewn y Tîm Mewnwelediad a Strategaeth Gorfforaethol, diwygiwyd fformat Adroddiad Monitro Cynllun Cyflawni Blynyddol y chwarter hwn (Ch1) dros dro, er mwyn parhau i roi trosolwg i Aelodau Etholedig o'r cynnydd o ran cyflawni'r ymrwymiadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith pob Pwyllgor Craffu.

Rhoddodd y cyflwyniad wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad grynodeb o'r cynnydd yn erbyn ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2024/25 fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch1 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd. Ar ôl ystyried, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu gyfeirio ei safbwyntiau ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi canlyniadau perfformiad Chwarter 1 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y dylid nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.